OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2437 (Cy.210)

# IECHYD MEDDWL, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Medi 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Medi 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Tachwedd 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 130A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**) a chan adrannau 12 a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

### Enwi, cychwyn a rhychwant

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 3 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cleifion cymwys" ("*qualifying patients*") yw'r personau hynny sy'n gymwys i gael cymorth gan EAIM o dan adrannau 130C(2), (3) a (4) o'r Ddeddf;

ystyr "darparydd gwasanaethau eirioli" ("*provider of advocacy services*") yw corff neu berson, gan gynnwys corff gwirfoddol, sy'n cyflogi personau y gellir peri eu bod ar gael i weithredu fel EAIM;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983; ac

ystyr "EAIM" ("*IMCA*") yw eiriolwr annibynnol iechyd meddwl.

(**1**) 1983 (p.20). Mewnosodwyd adran 130A gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (c. 12).
(**2**) 2006 p.42.

**Trefniadau ar gyfer eiriolwyr annibynnol iechyd meddwl**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i gyfarwyddiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu rhoi, bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud trefniadau y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol er mwyn galluogi EAIMau i fod ar gael i weithredu mewn cysylltiad â chlaf cymwys sydd—

(a) yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu mewn sefydliad cofrestredig sydd yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) yn ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan y Ddeddf neu sy'n glaf cymunedol ac sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer;

(c) yn gymwys o dan adran 130C(3) o'r Ddeddf ac sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer.

(2) Wrth wneud trefniadau o dan baragraff (1) caiff Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau gyda darparydd gwasanaethau eirioli.

(3) Ni chaiff unrhyw berson weithredu fel EAIM onid yw'r person hwnnw wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu onid yw wedi cael ei gyflogi gan ddarparydd gwasanaethau eirioli i weithredu fel EAIM.

(4) Cyn cymeradwyo unrhyw berson o dan baragraff (3) rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol gael ei fodloni bod y person yn bodloni'r gofynion penodi yn rheoliad 4.

(5) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sicrhau ei bod yn ofynnol i unrhyw ddarparydd gwasanaethau eirioli y mae'r Bwrdd yn gwneud trefniant ag ef o dan baragraff (2), yn unol â thelerau'r trefniant hwnnw, sicrhau bod unrhyw berson—

(a) a gyflogir gan y darparydd gwasanaethau eirioli hwnnw, a

(b) y perir ei fod ar gael i weithredu fel EAIM,

yn bodloni'r gofynion penodi yn rheoliad 4.

(6) At ddibenion rheoliad 2(2) o Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003(**3**) nid yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud trefniadau'n unol â pharagraff (1) mewn perthynas â chlaf cymwys os yw'r claf cymwys hwnnw—

(a) fel arfer yn preswylio yn yr ardal y sefydlwyd y Bwrdd Iechyd Lleol ar ei chyfer; a

(b) yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu mewn sefydliad cofrestredig nad yw yn yr un ardal y mae ef fel arfer yn preswylio ynddi

**Gofynion penodi ar gyfer eiriolwyr annibynnol iechyd meddwl**

**4.**—(1) Y gofynion penodi yn rheoliad 3(4) a (5) yw–

(a) bod gan y person brofiad neu hyfforddiant priodol neu gyfuniad priodol o brofiad a hyfforddiant;

(b) bod y person yn meddu ar uniondeb a chymeriad da; ac

(c) y bydd y person yn gweithredu'n annibynnol ar unrhyw berson

(i) sy'n gofyn i'r person hwnnw ymweld neu gyf-weld â'r claf cymwys;

(ii) sy'n ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf cymwys.

(2) Wrth benderfynu a yw person yn bodloni'r gofyniad penodi ym mharagraff (1)(a) rhoddir ystyriaeth i safonau mewn canllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi o bryd i'w gilydd.

(3) At ddibenion paragraff (2) caiff safonau gynnwys unrhyw gymhwyster y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu eu bod yn briodol.

(**3**) O.S. 2003/150 (Cy.20).

(4) Cyn gwneud penderfyniad at ddibenion paragraff (1)(b) mewn perthynas ag unrhyw berson, rhaid cael gafael ar y canlynol mewn cysylltiad â'r person hwnnw—

(a) tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir yn unol ag adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**4**); neu

(b) os nad yw'r diben y mae'r dystysgrif yn ofynnol o'i herwydd yn un a ragnodir o dan is-adran (2) o'r adran honno, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir yn unol ag adran 113A o'r Ddeddf honno.

(5) At ddibenion adran 130A(5) nid yw person yn ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf cymwys

(a) os yw'n gweithredu, neu wedi gweithredu, fel EAIM i'r claf cymwys yn unol ag adran 130B o'r Ddeddf; neu

(b) os yw'n cynrychioli neu'n cynorthwyo, neu wedi cynrychioli neu gynorthwyo, claf cymwys heb fod yn unol ag adran 130B ond nad yw fel arall yn ymwneud â thriniaeth y claf cymwys.

(6) Yn y rheoliad hwn mae person yn cael ei gyflogi gan y darparydd gwasanaethau eirioli os yw'r person hwnnw—

(a) yn gyflogedig o dan gontract gwasanaeth; neu

(b) wedi ei gymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2008

(**4**) 1997 p.50. Mewnosodir adrannau 113A i 113D gan adran 163 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.14).

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ynghylch y trefniadau ar gyfer penodi Eiriolwyr Annibynnol Iechyd Meddwl (EAIMau). Maent yn cynnwys darpariaeth ynghylch pwy y caniateir ei benodi'n EAIM.

**2.** Mae rheoliad 3 yn darparu—

(a) bod yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) drefnu bod EAIMau ar gael i gleifion sy'n gymwys am help o dan adran 130C o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("y Ddeddf"). Cleifion cymwys yw'r cleifion hynny sydd

(i) yn agored i gael eu cadw'n gaeth mewn ysbyty (ac eithrio o dan adrannau 4, 5(2)(4), 135 neu 136 o'r Ddeddf);

(ii) yn ddarostyngedig i orchmynion gwarcheidiaeth neu driniaeth gymunedol;

(iii) cleifion anffurfiol sy'n cael eu hystyried am ffurf ar driniaeth sy'n dod o dan adran 57 o'r Ddeddf;

(iv) cleifion anffurfiol nad ydynt wedi cyrraedd eu deunaw mlwydd oed ac sy'n cael eu hystyried am ffurf ar driniaeth o dan adran 58A o'r Ddeddf (rheoliad 3(1));

(b) y caiff BILlau wneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaethau eirioli ar gyfer darparu EAIMau (rheoliad 3(2));

(c) bod yn rhaid i unrhyw berson a benodwyd i weithredu fel EAIM fod naill ai wedi'i gymeradwyo gan y BILl neu wedi'i gyflogi gan ddarparydd gwasanaethau eirioli (rheoliad 3(3));

(ch) bod yn rhaid i BILl, cyn cymeradwyo EAIM, gael ei fodloni ei fod yn cwrdd â gofynion y penodiad (rheoliad 3(4));

(d) y dylai fod yn ofynnol i ddarparydd gwasanaethau eirioli sicrhau bod unrhyw EAIMau y gallant eu cyflogi yn bodloni gofynion y penodiad (rheoliad 3(5));

(dd) eglurhad ynghylch pa BILl sy'n gyfrifol am drefnu i EAIM weithredu dros glaf tra bydd yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty.

**3.** Mae rheoliad 4 yn nodi'r gofynion penodi y mae'n rhaid i EAIM eu bodloni cyn y caniateir ei benodi.

**4.** Ni luniwyd asesiad effaith llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan ragwelir y caiff effaith arwyddocaol ar y sector preifat nac ar y sector gwirfoddol.